Cyfenw	Rhif y Ganolfan	Rhif yr Ymgeisydd
Enw(au) cyntaf		0

TGAU

3310N10-1

S24-3310N10-1

DYDD IAU, 9 MAI 2024 – BORE

MATHEMATEG – RHIFEDD
UNED 1: HEB GYFRIFIANNELL
HAEN SYLFAENOL

1 awr 30 munud

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Ni allwch chi ddefnyddio cyfrifiannell yn yr arholiad hwn.

Efallai bydd angen pren mesur, onglydd a chwmpas.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du. Peidiwch â defnyddio beiro gel na hylif cywiro.

Gallwch chi ddefnyddio pensil ar gyfer graffiau a diagramau yn unig.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn yn y lleoedd gwag priodol.

Os nad oes digon o le, defnyddiwch y dudalen ychwanegol yng nghefn y llyfryn. Rhaid rhoi rhif y cwestiwn ar gyfer unrhyw waith sy'n cael ei ysgrifennu ar y dudalen ychwanegol.

Cymerwch π fel 3·14.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dylech chi roi manylion eich dull datrys os yw'n briodol.

Nid yw'r diagramau wedi'u lluniadu wrth raddfa os nad yw'n cael ei nodi.

Ni fydd atebion lluniadu wrth raddfa yn dderbyniol os oes gofyn i chi gyfrifo.

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Yng nghwestiwn **1**(a), bydd yr asesu'n ystyried ansawdd eich trefnu, cyfathrebu a chywirdeb ieithyddol a mathemategol yn ysgrifennu.

I'r Arholwr yn Unig		
Cwestiwn	**Marc Uchaf**	**Marc yr Arholwr**
1.	**19**	
2.	**10**	
3.	**4**	
4.	**6**	
5.	**3**	
6.	**5**	
7.	**3**	
8.	**3**	
9.	**12**	
Cyfanswm	**65**	

3310N101
01

Rhestr Fformiwlâu – Haen Sylfaenol

Arwynebedd trapesiwm = $\frac{1}{2}(a + b)h$



Arholwr yn unig

1. (a) *Yn y rhan hon o'r cwestiwn, cewch eich asesu ar ansawdd eich trefnu, cyfathrebu a chywirdeb yn ysgrifennu.*

Mae Stuart, Annelise a'u plant yn hoffi cadw'n ffit.

Mae'r tabl isod yn dangos prisiau mathau gwahanol o aelodaeth (*membership*) mewn clwb ffitrwydd lleol.

Math o aelodaeth	Pris am flwyddyn
Oedolyn	£380
Oedolyn Hŷn (60 oed neu fwy)	£260
Plentyn/Person Ifanc (16 oed neu lai)	£170
Teulu (2 Oedolyn a 2 Plentyn/Person Ifanc)	£920

Mae Stuart a hefyd Annelise yn 42 oed.
Mae mab ganddyn nhw sy'n 14 oed a merch sy'n 12 oed.
Maen nhw i gyd eisiau prynu aelodaeth o'r clwb ffitrwydd am flwyddyn.

Faint yn llai fydd y cyfanswm mae'r teulu yn ei dalu drwy gael aelodaeth Teulu yn hytrach nag aelodaeth ar wahân ar gyfer pob person?
Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo. [4 + 2 TCY]

3310N101 03

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

ⓑ WJEC CBAC Cyf.

Trowch y dudalen.

Arholwr yn unig

(b) Mae'r tabl isod yn rhoi nifer y calorïau wedi'u defnyddio mewn un munud wrth ymarfer ar y cyfarpar campfa (*gym equipment*) sy'n cael ei ddangos.

Cyfarpar		Calorïau wedi'u defnyddio mewn un munud
Peiriant rhwyfo		11 o galorïau
Beic ymarfer		14 o galorïau
Peiriant rhedeg		17 o galorïau
Peiriant croesymarfer (*cross trainer*)		12 o galorïau

(i) Mae Stuart yn defnyddio'r peiriant rhwyfo am 20 munud.
Faint o galorïau mae e'n eu defnyddio? [2]

.....

.....

.....

(ii) Mae Annelise yn defnyddio'r peiriant croesymarfer.
Faint o funudau mae'n cymryd iddi ddefnyddio 360 o galorïau? [2]

.....

.....

.....

Arholwr yn unig

(c) Pan mae Stuart yn defnyddio'r beic ymarfer, mae e'n cadw rhan uchaf ei gorff (*upper body*) ar ongl o 45° i'r llorweddol.

Pa fath o ongl yw ongl o 45°?
Rhowch gylch o amgylch eich ateb. [1]

ongl lem	ongl aflem	llinell syth	ongl sgwâr	ongl atblyg

(ch) Mae'r clwb ffitrwydd yn cadw gwybodaeth wythnosol am nifer y bobl sy'n mynd i ddosbarthiadau ffitrwydd gwahanol.

Mae'r tabl isod yn dangos y wybodaeth ar gyfer wythnos gyntaf mis Ebrill.

Dosbarth ffitrwydd	Nifer y bobl
Sbin	62
Step	96
Ioga	84
Ymarfer cylchol (*circuit*s)	88
Zumba	57

Mae Annelise yn meddwl mai ioga yw'r dosbarth ffitrwydd modd (*modal*).
Ydy hi'n gywir? [1]

Ydy ☐ Nac ydy ☐

Rhowch reswm dros eich ateb.

.....

.....

3310N101 05

ⓑ WJEC CBAC Cyf.

Trowch y dudalen.

Arholwr yn unig

(d) Mae'r clwb ffitrwydd eisiau gosod teils ar waelod y pwll nofio.
Mae amlinell (*outline*) gwaelod y pwll wedi'i luniadu wrth raddfa ar y grid sgwariau isod.
Graddfa'r lluniad yw 1 cm yn cynrychioli 1 m.

Graddfa: 1 cm yn cynrychioli 1 m



Bydd y teilsiwr yn codi (*charge*) £30 am bob metr sgwâr (*per square metre*) er mwyn gosod y teils.
Faint yw'r cyfanswm bydd y teilsiwr yn ei godi er mwyn gosod y teils? [4]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Arholwr yn unig

(dd) Mae fan fach gan y teilsiwr.

Mae'r diagram isod yn **lluniad wrth raddfa** o'r fan.
Graddfa'r lluniad yw 1 cm yn cynrychioli 50 cm.

Darganfyddwch hyd gwirioneddol (*actual*) y fan mewn metrau. [3]

.....

.....

.....

Hyd y fan = ... o fetrau

3310N101
07

Arholwr yn unig

2. (a) Mae Beth a'i 3 ffrind, Nadia, Jodie a Saskia, yn trefnu gwyliau 3 diwrnod. Maen nhw'n bwriadu mynd i Landudno yn ystod y gwanwyn neu'r haf yn 2025.

Maen nhw'n gwybod y canlynol:

- dydy Nadia ddim yn gallu bod i ffwrdd yn ystod mis Mai na mis Gorffennaf,
- dydy Beth ddim yn gallu bod i ffwrdd ar ddydd Sadwrn na dydd Sul,
- dydy Saskia ddim yn gallu bod i ffwrdd yn ystod gwyliau'r ysgol,
- dydy Jodie ddim yn gallu bod i ffwrdd ar y 3 dydd Mawrth olaf o bob mis **na'r** 2 ddydd Gwener cyntaf o bob mis.

Mae'r calendr isod yn dangos misoedd y gwanwyn a'r haf yn 2025.

Mae ▭ yn cynrychioli gwyliau'r ysgol.

Beth yw'r **dyddiadau hwyraf** y bydden nhw i gyd yn gallu mynd ar wyliau 3 diwrnod? [3]

MAWRTH 2025						
Sul	**Ll**	**Ma**	**Me**	**Iau**	**Gw**	**Sa**
						1
2	3	4	5	6	7	8
9	10	11	12	13	14	15
16	17	18	19	20	21	22
23	24	25	26	27	28	29
30	31					

EBRILL 2025						
Sul	**Ll**	**Ma**	**Me**	**Iau**	**Gw**	**Sa**
		1	2	3	4	5
6	7	8	9	10	11	12
13	14	15	16	17	18	19
20	21	22	23	24	25	26
27	28	29	30			

MAI 2025						
Sul	**Ll**	**Ma**	**Me**	**Iau**	**Gw**	**Sa**
				1	2	3
4	5	6	7	8	9	10
11	12	13	14	15	16	17
18	19	20	21	22	23	24
25	26	27	28	29	30	31

MEHEFIN 2025						
Sul	**Ll**	**Ma**	**Me**	**Iau**	**Gw**	**Sa**
1	2	3	4	5	6	7
8	9	10	11	12	13	14
15	16	17	18	19	20	21
22	23	24	25	26	27	28
29	30					

GORFFENNAF 2025						
Sul	**Ll**	**Ma**	**Me**	**Iau**	**Gw**	**Sa**
		1	2	3	4	5
6	7	8	9	10	11	12
13	14	15	16	17	18	19
20	21	22	23	24	25	26
27	28	29	30	31		

AWST 2025						
Sul	**Ll**	**Ma**	**Me**	**Iau**	**Gw**	**Sa**
					1	2
3	4	5	6	7	8	9
10	11	12	13	14	15	16
17	18	19	20	21	22	23
24	25	26	27	28	29	30
31						

Y dyddiadau ar gyfer y gwyliau 3 diwrnod yw:

.....

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

(b) Ar gyfer y gwyliau, bydd y 4 ffrind yn aros yn Llandudno am 2 noson yn unig. Maen nhw'n gallu dewis aros naill ai mewn fflat neu mewn gwesty.

Fflat y Pier	Gwesty Promenade
Fflat â 2 ystafell wely Lle i 4 person £250 am 1 noson *10% i ffwrdd o'r cyfanswm ar gyfer bwciadau 2 noson*	Ystafell 2 wely (ystafell ar gyfer 2 berson) Ystafell yn £110 y noson

Darganfyddwch y gwahaniaeth rhwng **cyfanswm** cost aros yn Fflat y Pier a **chyfanswm** cost aros yn Gwesty Promenade am y 2 noson. [5]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

3310N101
09

(c) Mae Saskia yn mynd i wneud teisen ar gyfer y gwyliau.
Bydd top y deisen yn betryal. Yr hyd fydd 24 cm a'r lled fydd 15 cm.
Mae gan Saskia ddigon o eisin i orchuddio (*cover*) 320 cm^2.
A fydd hyn yn ddigon o eisin i orchuddio top y deisen?

Bydd ☐ Na fydd ☐

Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo. [2]

.....

.....

.....

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Trowch y dudalen.

Arholwr yn unig

3. Mae Dafydd bob amser yn gwneud cinio dydd Sul i'r teulu.
Ddydd Sul, mae e'n bwriadu coginio twrci.

Dyma'r cyfarwyddiadau ar gyfer y cyfanswm amser i goginio twrci:

Cyfanswm amser	=	30 munud ar 220°C	+	50 munud am bob cilogram (*per kilogram*) ar 170°C	+	Gadael am 15 munud cyn gweini

Mae Dafydd yn coginio twrci 3 cilogram.
Mae eisiau gweini (*serve*) y twrci am 2 p.m.
Beth yw'r amser hwyraf dylai Dafydd ddechrau coginio?
Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo. [4]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Arholwr yn unig

4. (a) Mae brwshys dannedd unfath (*identical*) yn cael eu gwerthu mewn pecynnau o 3 neu 5.

Mae pecyn o 3 brwsh dannedd yn costio £1.44.
Mae pecyn o 5 brwsh dannedd yn costio £2.25.

Pa becyn o'r brwshys dannedd sy'n cynnig y gwerth gorau am arian?
Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo. [3]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

(b) Mae tiwbiau past dannedd 75 ml yn costio 93c yr un.

Mae tiwbiau past dannedd 100 ml yn cynnig **yr un** gwerth am arian.

Cyfrifwch beth yw cost tiwb past dannedd 100 ml. [3]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

ⓑ WJEC CBAC Cyf.

Trowch y dudalen.

Arholwr yn unig

5. Ar ddydd Mawrth, mae Alfred yn teithio ar ffordd syth.
Mae'r graff yn cynrychioli ei daith yn ystod y diwrnod, hyd nes yr amser mae e'n cyrraedd yn ôl gartref.



(a) Faint o'r gloch mae Alfred yn cyrraedd yn ôl gartref ar ddydd Mawrth? [1]

.....

(b) Beth yw cyfanswm y pellter mae Alfred yn teithio yn ystod y diwrnod ar ddydd Mawrth? [1]

.....

..... km

(c) Yn ystod pa ran o'r diwrnod mae Alfred yn teithio ar fuanedd cyfartalog o 6 km yr awr? Rhowch gylch o amgylch eich ateb. [1]

08:00 i 08:30 08:30 i 12:00 12:00 i 12:30

12:30 i 14:00 14:00 i 15:00

.....

.....

ⓑ WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

6. Mae Erin yn berchen ar siop fach.
Llynedd, incwm Erin o'i siop oedd 26 000 ewro.
Roedd Erin yn gorfod talu treth ar yr holl incwm hwn.
Roedd hi wedi talu treth o 20% ar yr 15 000 ewro cyntaf o'r incwm hwn.
Roedd hi wedi talu treth o 30% ar weddill yr incwm hwn dros 15 000 ewro.

Cyfrifwch beth yw cyfanswm y dreth roedd Erin wedi ei thalu.
Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo. [5]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

ⓑ WJEC CBAC Cyf.

Trowch y dudalen.

Arholwr yn unig

7. Mae 7200 o wylwyr (*spectators*) yn mynd i ddigwyddiad chwaraeon.
Mae'r gwylwyr hyn yn gwylio beicio, athletau neu'r ddau.
Dyma'r ffioedd mynediad ar gyfer y digwyddiadau.

Digwyddiad	Ffi mynediad
Beicio yn unig	£25
Athletau yn unig	£30
Mynediad i'r ddau (beicio ac athletau)	£40

Mae'r diagram Venn yn dangos nifer y tocynnau wedi'u prynu ar gyfer y digwyddiadau gwahanol.



Cyfrifwch beth yw cyfanswm y ffioedd mynediad sy'n cael eu derbyn gan y 7200 o wylwyr.
Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo. [3]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

ⓑ WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

8. Mae rhai tai mewn pentref yn cael dreif (*driveway*) newydd, wedi'i osod gan DriveDown. Mae'r diagram gwasgariad yn dangos arwynebedd a chost pob dreif.



(a) Mae arwynebedd dreif dau o'r tai hyn yr un peth.
Cyfrifwch y gwahaniaeth yng nghost y dreif newydd ar gyfer y ddau dŷ hyn. [2]

.....

.....

.....

(b) Arwynebedd dreif tŷ arall yn y pentref yw 25 m².
Amcangyfrifwch beth yw cost cael dreif newydd wedi'i osod gan DriveDown ar gyfer y tŷ hwn. [1]

.....

ⓑ WJEC CBAC Cyf.

Trowch y dudalen.

Arholwr yn unig

9. (a) Mae gan Siôn fan hufen iâ.

Ddydd Llun, mae Siôn yn gwerthu tair gwaith cymaint o hufen iâ ag y mae'n ei werthu o ddiodydd oer.
Mae e'n gwerthu 50 o ddiodydd oer ddydd Llun.
Mae Siôn yn gwerthu hufen iâ am £1.80 yr un.

Cyfrifwch faint o arian mae Siôn yn ei wneud o werthu hufen iâ ddydd Llun. [4]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

(b) Mae Siôn yn cadw'r hufen iâ mewn rhewgell (*freezer*) yn ei fan.
Bob awr mae e'n gwirio (*checks*) y tymheredd yn y rhewgell.
Mae e'n troi'r rhewgell ymlaen am 8 a.m.
Mae'r rhestr isod yn dangos y darlleniadau mae e'n eu cymryd o 8 a.m. i 3 p.m.

10°C 2°C –5°C –12°C –12°C –12°C –13°C –14°C

(i) Cyfrifwch beth yw cymedr y tymereddau hyn. [3]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

(ii) Am 4 p.m. mae Siôn yn cofnodi mai'r tymheredd yn y rhewgell yw –16°C.
Cyfrifwch beth yw cymedr y tymereddau wedi'u cofnodi yn rhewgell Siôn o 8 a.m. i 4 p.m. [2]

.....

.....

.....

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

(c) Mae Siôn yn parcio ei fan hufen iâ ar y traeth, fel sy'n cael ei ddangos ar y map isod.

Graddfa: 1 cm yn cynrychioli 20 metr



(i) Pa mor bell yw fan hufen iâ Siôn o'r orsaf achub? [2]

.....

.....

..... o fetrau

(ii) Cwblhewch y gosodiad canlynol.

'Cyfeiriant yr orsaf achub oddi wrth fan hufen iâ Siôn yw .....°.' [1]

.....

.....

DIWEDD Y PAPUR

ⓑ WJEC CBAC Cyf.

Rhif y Cwestiwn	Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen. Ysgrifennwch rifau'r cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen.

Arholwr yn unig

TUDALEN WAG

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU AR Y DUDALEN HON

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

TUDALEN WAG

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU AR Y DUDALEN HON

ⓗ WJEC CBAC Cyf.